# Adroddiad.
# Diwrnod Cofnodwyr y Gogarth
# 27ain Mai 2016




Ddydd Gwener 27ain Mai 2016 daeth pedwar ar ddeg o bobl at ei gilydd ar gopa'r Gogarth am ddiwrnod o gofnodi Biolegol. Mae'r Gogarth yn enwog oherwydd ei nodweddion botanegol diddorol ac fel un o safleoedd pwysicaf Prydain i löynnod byw.

Roedd yn ddiwrnod heulog ond roedd y gwynt braidd yn rhy gryf ar gyfer cyfrif da o'r glöynnod byw. Er hynny, gwelwyd ychydig o isrywogaeth frodorol y Gogarth, y Glesyn Serennog.

Gwnaed y gwaith cofnodi ar hyd y llethrau sy'n wynebu tua'r de orllewin. Cofnodwyd 156 o rywogaethau, a chofnodion am blanhigion (66) ac infertebrata (80) oedd y rhain, gan adlewyrchu prif ddiddordebau'r cofnodwyr.

Ymhlith rhai o'r rhywogaethau diddorol a ganfuwyd roedd Bombus rupestris, un o'r cacwn cwcw, a dau Heboglys brodorol (*Hieracium cambricum* a *H. pseudoleyi*). Canfuwyd 31 o rywogaethau o bryfed cop ac roedd 9 o'r rhain yn newydd i'r Gogarth.

Roedd yn ddiwrnod cyfoethog o ran canfod rhywogaethau prin, gan dynnu sylw at bwysigrwydd cadwriaethol y Gogarth.





WALES BIODIVERSITY PARTNERSHIP

cofnod
Gwasanaeth Gwybodaeth Amgylcheddol Gogledd Cymru
North Wales Environmental Information Service